**Dyddiad:** Dydd Gwener 8 Hydref 1999

**Amser:** 10:00am i 1:00pm

**Lleoliad:** Neuadd y Sir, Wrecsam

-

## BLAEN-RAGLEN WAITH

### Diben

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y flaen-raglen waith arfaethedig.

### Cefndir

Yn ei gyfarfod ar 2 Gorffennaf rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i bapur ar y "Flaen-raglen Waith a Dulliau Gweithio". Cytunwyd :

- mai cynrychioli pobl y Gogledd a hybysyu'r Cynulliad o'u safbwyntiau a'u pryderon oedd rôl y Pwyllgor;
- y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar ba mor briodol oedd polisi'r Llywodraeth fel y mae'n effeithio ar yr ardal;
- mai perswadio pobl, yn enwedig pobl y Gogledd-ddwyrain fod y Cynulliad yn berthnasol oedd y dasg fwyaf iddynt;
- y byddai'n bwysig i'r Pwyllgor gyfarfod â chyrff lleol a meithrin cysylltiadau â hwy, a chynnig gorolwg democrataidd;
- bod angen i'r Pwyllgor ganolbwyntio ar feysydd lle y gallai ychwanegu gwerth;
- y dylai'r Pwyllgor gynnal cyfarfodydd agored â'r cyhoedd o dro i dro.

Bydd y Pwyllgor yn dymuno cadw'r egwyddorion hyn mewn golwg pan fydd yn ystyried ei flaen-raglen waith.

Paratowyd y flaen-raglen waith, yn atodiad 1, ar sail y trafodaethau a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf.

### Cyfarfod â chyrff lleol

Yn dilyn y penderfyniadau a wnaed bryd hynny, bydd y pwyllgor yn gwrando ar gyflwyniadau ac yn

cynnal trafodaethau ag Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru a Fforwm Economaidd Gogledd Cymru.

Gan barhau â'r rhaglen o gyfarfodydd â phrif awdurdodau statudol y Gogledd efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno gwahodd awdurdodau lleol y Gogledd ac Awdurdod Tân y Gogledd i'r cyfarfod ar 10 Rhagfyr yng Nghaernarfon.

A oes cyrff eraill o'r Gogledd y mae'r Pwyllgor yn teimlo y dylai gyfarfod â hwy?

**Cyfarfod â'r Bobl**

Roedd y Pwyllgor o'r farn bod cwrdd â phobl y Gogledd yn bwysig ac roeddent yn cytuno y dylent gynnal rhai cyfarfodydd agored a y gallent wneud hynny ddydd Gwener 12 Tachwedd.

A yw'r Pwyllgor am gymryd y cyfle i gynnal cyfarfod agored ar y dyddiad hwnnw?

Os felly, ym mha ffordd yr hoffai i'r cyfarfod gael ei gynnal? Er enghraifft, gallai fod ar ffurf dadl ffurfiol yn canolbwyntio ar bwnc penodol, neu gallai roi cyfle i bobl fynegi eu pryderon.

**Priodoldeb polisïau'r llywodraeth**

Roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig edrych ar ba effaith roedd polisïau'r llywodraeth yn ei gael ar y Gogledd. A oes unrhyw faterion penodol, lle y gellir ychwanegu gwerth, y dylai'r Pwyllgor eu hystyried?

**Ceisiadau am gyfarfod â'r Pwyllgor**

Dros y misoedd nesaf, mae'n debygol y bydd amryw o gyrff ac unigolion yn cysylltu ag aelodau'r Pwyllgor neu'r Ysgrifenyddiaeth yn gofyn am gyfarfod â'r Pwyllgor. Os digwydd hynny, cynigir y dylid dweud wrth y corff na fydd y Pwyllgor yn trafod materion y mae'r pwyllgorau pwnc yn ymdrin â hwy os nad ydynt yn ymwneud yn benodol â'r Gogledd. Os ymddengys fod hynny yn wir gwahoddir y corff i ysgrifennu at yr Ysgrifenyddiaeth gan egluro cefndir y pwnc sydd i'w drafod. Mae rhai ceisiadau eisoes wedi dod i law a dyma'r ymateb a roddwyd iddynt.

Gofynnir i'r Aelodau drosglwyddo unrhyw geisiadau sy'n dod i law i'r Ysgrifenyddiaeth. Cedwir cofnod o bob cais am gyfarfod.

Mae sawl dewis ar gael i'r Pwyllgor ar gyfer delio â cheisiadau am gyfarfod. Fe allai'r Pwyllgor:

- ystyried y ceisiadau yn ei gyfarfodydd ffurfiol a gynhelir ddwywaith y tymor. Anfantais hyn yw y bydd yn rhaid i bob agenda gynnwys eitem ar y flaen-raglen waith. Nid ydym yn gwybod faint o geisiadau fydd yn dod i law ond byddai rhoi ystyriaeth iddynt yn cymryd llawer o amser

gwerthfawr y pwyllgor;
- sefydlu is-grp bychan gydag un aelod o bob plaid i ystyried y ceisiadau hyn, neu
- adael i'r Cadeirydd benderfynu ar geisiadau am gyfarfodydd gan ymgynghori â'r Ysgrifenyddiaeth.

**Camau i'r Pwyllgor eu cymryd**

Gofynnir i'r Pwyllgor:

- nodi'r flaen-raglen waith yn atodiad 1;
- nodi a ddylid gwahodd awdurdodau lleol y Gogledd ac Awdurdod Tân y Gogledd i'w gyfarfod ar 10 Rhagfyr;
- awgrymu unrhyw gyrff lleol eraill o'r Gogledd y gellid cyfarfod â hwy;
- nodi a yw'n dymuno cynnal cyfarfod agored ddydd Gwener 12 Tachwedd ac, os felly, (a'r dewisiadau)
- nodi a oes gan y Llywodraeth unrhyw bolisïau sy'n effeithio ar y Gogledd yr hoffai'r Pwyllgor eu hystyried;
- nodi sut mae'n dymuno delio â cheisiadau am gyfarfodydd.

**Annex 1**

**PWYLLGOR RHANBARTH Y GOGLEDD – BLAEN-RAGLEN WAITH DDRAFFT**

| **Cyfarfod** | **Lleoliad** | **Rhif yr Eitem ar yr Agenda** | **Pwnc** |
| --- | --- | --- | --- |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod ar y cyd gyda'r Pwyllgor Datblygu Economaidd<br><br>10am ddydd Llun 20 Medi 1999 | Neuadd y Dref, Y Rhyl (cyfeiriad?) | Rhan 1<br><br>(Gareth Jones yn y Gadair)<br><br>Rhan 2 (Val Feld yn y Gadair) | Cyflwyniad byr gan Ysgrifenddiaeth y Tasglu (*10 munud*)<br><br>Y Pwyllgor Rhanbarth yn holi aelodau'r tasglu a'r bobl hynny a fu'n ymwneud â'r gwaith o lunio'r dogfennau rhaglennu sengl rhanbarthol *(1 awr)*<br><br>*(egwyl o 15 munud)*<br><br>Y Pwyllgor yn clywed gan sefydliadau a wahoddwyd i'r cyfarfod a (rhai o'r) bobl sydd wedi gwneud cais i gael siarad (3 munud i bob sefydliad fynegi barn, a chwestiynau wedi hynny)<br><br>10 munud ar y diwedd i'r cyhoedd gael siarad am ychydig.<br><br>Y Cadeirydd yn crynhoi'r cyfarfod. |
| | | | |
| NWR 02-99<br><br>(2ail gyfarfod ffurfiol<br><br>8 Hydref 1999 | Swyddfa Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Neuadd y Dref, Wrecsam | 1 | Cyflwyniad gan Awdurod Iechyd Gogledd Cymru a thrafodaeth wedi hynny (*1 awr*) |
| | | 2 | Cyflwyniad gan Fforwm Economaidd Gogledd Cymru a thrafodaeth wedi hynny (*1 awr ac egwyl o 15 munud wedyn*) |
| | | 3 | Adroddiad gan y grp anffurfiol ar gysylltiadau rheilffordd rhwng y gogledd a'r de *(30 mumud)* |
| | | 4 | Ystyried y flaen-raglen waith |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod anffurfiol Dydd Gwener 12 Tachwedd (dyddiad i'w gadarnhau) | I'w benderfynu | | *Fforwm agored i'r cyhoedd?*<br><br>*Sesiwn ar y cyd?* |
| | | | |
| NWR 03-99<br><br>3ydd cyfarfod ffurfiol<br><br>10 December (dyddiad i'w gadarnhau) | Swyddfeydd Cyngor Sir Gwynedd, Caernarfon | 1 | *Cyflwyniad gan awdurdodau unedol Gogledd Cymru a thrafodaeth wedi hynny? (2 awr)*<br><br>*(Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn)* |
| | | 2 | *Cyfarfod ag Awdurdod Tân Gogledd Cymru?* |
| | | 3 | *Materion sy'n ymwneud â'r etholaethau*? |
| | | | |
| Cyfarfod anffurfiol yn ystod mis Ionawr (dyddiad i'w gadarnhau) | | | |
| | | | |
| NWR 04-99<br>4ydd cyfarfod ffurfiol<br>[Chwefror]<br>(dyddiad i'w gadarnhau) | | | |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod anffurfiol yn ystod mis Mawrth (dyddiad i'w gadarnhau) | | | |
| | | | |
| NWR 05-99 5ed cyfarfod ffurfiol [Ebrilll] (dyddiad i'w gadarnhau) | | | |
| | | | |
| Cyfarfod anffurfiol yn ystod mis Mai (dyddiad i'w gadarnhau) | | | |
| | | | |
| NWR 06-99 6ed Cyfarfod ffurfiol [Mehefin] (dyddiad i'w gadarnhau) | | | |